# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Beca Brown, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Debbie A W Jones |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10 Hydref 2023 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
   Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys cyfarch canlyniadau'r haf, arolygiad Estyn ar wasanaethau Addysg yr Awdurdod, ynghyd ag amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Yn y lle cyntaf, hoffwn longyfarch ein hysgolion a'n dysgwyr ar ganlyniadau gwych yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf yma. Rwy'n dymuno'n dda i bob person ifanc yng Ngwynedd sydd yn camu ymlaen i'r bennod gyffrous nesaf yn eu bywyd, boed hynny i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant, prentisiaethau neu waith.

Hefyd, fel rydych yn ymwybodol, bu i Garem Jackson adael ei swydd ar ôl bod yn Bennaeth Addysg yng Ngwynedd ers 2017, a hynny am resymau personol. Rwy'n awyddus i gymryd y cyfle hwn i nodi fy ngwerthfawrogiad a fy niolch diffuant iddo am ei gyfraniad a'i frwdfrydedd dros y blynyddoedd, ac yn sicr am ei arweiniad a'i gefnogaeth i mi fel Aelod Cabinet Addysg ers Mai 2022, ac rwy'n dymuno'r gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd arolygiad gan Estyn o wasanaethau Addysg yr Awdurdod a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 20 Medi 2023. Mae'r adroddiad yn gadarnhaol iawn ac rwy'n hynod o falch o hynny, gan ei fod yn brawf o waith caled a chyfraniad pawb yn y gyfundrefn.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Awst 2023, gan gydnabod ei bod yn ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill eleni. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn arbennig o hapus gyda pherfformiad yr Adran, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**Perfformiad Addewidion Cynllun y Cyngor**

**Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**

Mae ymgynghorydd allanol wedi'i gomisiynu i ddatblygu ein platfform gwybodaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar mewn ymateb i'r hyn y mae plant a theuluoedd Gwynedd a darparwyr / gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar wedi ei ddweud wrthym am gymhlethdod mynediad i wasanaethau. Rydym hefyd wedi llunio Cynllun Gweithredu drafft fydd yn gyfrwng i siapio Strategaeth newydd ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ymhellach ar gynnydd y maes allweddol bwysig hwn y tro nesaf.

**Cinio ysgol am ddim**

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd ar draws Cymru. Ers y cyhoeddiad, mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a'r Tîm Datblygu Eiddo i sicrhau fod pob un o ysgolion cynradd y sir efo'r offer pwrpasol, a gofod bwyta priodol ar gyfer galluogi pob disgybl i allu manteisio ar y cynllun.

Ers 1 Medi eleni, rwy'n hynod o falch fod pob dysgwr cynradd o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yng Ngwynedd yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim. Mae sicrhau cinio poeth yn yr ysgol i bob plentyn cynradd o gymorth mawr i deuluoedd o ystyried y cynnydd mewn costau byw, a dw i'n awyddus i gynifer o deuluoedd â phosibl fanteisio ar y cynllun hwn. O ganlyniad, byddaf yn gofyn i'r Adran hyrwyddo'r cynnig ymysg plant a theuluoedd, ynghyd â monitro niferoedd sydd yn dewis cinio ysgol er mwyn annog rhagor o deuluoedd i fanteisio arno.

**Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu**

Yn sgil cyflwr gwael adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr rydym yn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu. Yn dilyn torri'r dywarchen ar safle'r ysgol newydd ar 6 Mawrth 2023, mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n dda ar y safle, ac rwy'n edrych ymlaen i'r ysgol newydd agor erbyn Medi 2024.

Mae bwriad hefyd i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ym Mangor. Er bod y gwaith o gadarnhau'r costau terfynol ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd yn parhau, rydym wedi cyflwyno rhan gyntaf o'r achos busnes ar gyfer rhyddhau'r arian i Lywodraeth Cymru.

Mae bwriad hefyd i wneud gwelliannau i Ysgol Hirael, ynghyd â gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan ym Mangor. Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o greu dyluniadau cychwynnol ar gyfer y gwelliannau hyn, a maes o law byddwn yn cyflwyno achosion busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian i wireddu ein dyheadau ar gyfer sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i'r dysgwyr.

Mae Ysgol y Faenol hefyd wedi cael estyniad sylweddol. Fodd bynnag, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Rwy'n ymwybodol fod pryderon a rhwystredigaeth yn lleol am y sefyllfa, a hoffwn gadarnhau fod yr Adran a'r Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i geisio datrys y sefyllfa a chwblhau'r prosiect sydd yn cynnwys canolfan gymunedol newydd.

Rwy'n hynod o falch o allu datgan ein bod wedi sicrhau £4.9m pellach i wella Cyflwr ac Addasrwydd 11 o ysgolion cynradd ac uwchradd yng Ngwynedd sydd wedi eu cynnwys yng ngwedd olaf y prosiect. Pwrpas y prosiect yma yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. Bydd y gwaith yn cychwyn yn yr ysgolion dros y misoedd nesaf.

Yn ystod Tymor yr Haf bu i ni gynnal 2 weithgor gyda penaethiaid uwchradd Arfon er mwyn trafod ac ail-ymweld â'r achos dros newid gwreiddiol ar gyfer y prosiect addysg ôl-16 yn Arfon. Mae'r Adran wedi adrodd yn ôl i'r penaethiaid yn sgil y gweithgorau a gynhaliwyd, a byddaf yn cyflwyno adroddiad i Gabinet yn fuan ar sail casgliadau'r drafodaeth.

**Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**
Mae'r prosiect hwn yn newydd yng Nghynllun y Cyngor ac yn un o fy mhrif flaenoriaethau i fel Aelod Cabinet Addysg. Ers ei sefydlu, mae holiaduron wedi eu llunio ar gyfer staff ysgolion, rhieni a dysgwyr er mwyn casglu gwybodaeth am y gwir gost o fynychu'r ysgol. Bydd yr ymchwil hwn yn sail i ystyried ym mha fodd gall ysgolion, yr Adran a'r Cyngor leihau costau ac ysgafnhau baich ariannol ar deuluoedd o anfon eu plant i'r ysgol. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb fel templed ar gyfer ysgolion, gan gymryd i ystyriaeth canfyddiadau a phrif negeseuon o'r

ymgynghoriad a gynhaliwyd ar Gynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ymhellach ar gynnydd y prosiect allweddol bwysig yma y tro nesaf.

**Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**
Dros gyfnod yr haf bu i'r Gwasanaeth Ieuenctid ddarparu gweithgareddau hwyl a llesiant yn y gymuned i bobl ifanc 11-25 fel rhan o'r prosiect Haf o Hwyl. Llwyddodd y tîm i ddarparu sesiynau mewn 18 o leoliadau ar draws Gwynedd gyda dros 550 o bobl ifanc yn mynychu'r sesiynau yma.

Yn ychwanegol, mynychodd dros 200 o bobl ifanc Gwynedd Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd fel rhan o waith partneriaethol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Eisteddfod. Bu i'r fenter hon alluogi pobl ifanc o bob rhan o Wynedd i gael profiad o fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn rhad ac am ddim.

Yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2022/3 bu i'r Ŵyl Llesiant a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth ennill y wobr am *'Ddangos rhagoriaeth wrth gynllunio a chyflenwi mewn partneriaeth ar lefel leol'* a bu i Andrew Owen o'r Gwasanaeth gael ei enwi yn 'Weithiwr Ieuenctid Eithriadol'. Bu i Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru ymweld â phabell Cyngor Gwynedd yn yr Eisteddfod i sgwrsio gyda'r bobl ifanc a llongyfarch Andrew ar ei lwyddiant ac am y gwaith gwych mae'n gyflawni gyda phobl ifanc yng Ngwynedd, ac fel Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am y maes hynod bwysig hwn, hoffwn i hefyd gymryd y cyfle i longyfarch y gwasanaeth.

**Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**
Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Eifionydd a Bangor, ac rydym newydd dderbyn caniatâd cynllunio ar gyfer safle addysg drochi Tywyn. Ym Mehefin eleni, bu i ni hefyd gyflwyno achos fusnes ar gyfer ail wedd o arian cyfalaf gwerth £1.1m arall er mwyn buddsoddi yn y 3 safle addysg drochi cynradd a gaiff eu lleoli yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Rydym yn aros i glywed am lwyddiant yr achos busnes yma gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae grant refeniw Trochi Hwyr, Llywodraeth Cymru hefyd yn ein galluogi i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi yn ein canolfannau. Bellach mae cynllun trochi Aberwla wedi ei ddatblygu, sy'n gynllun gwahaniaethol sy'n pontio'r cynradd a'r uwchradd. I gyd-fynd â'r cynllun mae'r prosiect arloesol digidol sy'n gosod cynllun Aberwla a'r cymeriadau ar lwyfan VR y byd rhithiol. Ar 7 Gorffennaf, cynhaliwyd hyfforddiant ar gais Llywodraeth Cymru i rannu'r adnodd arloesol hwn yn genedlaethol. Yn sgil yr hyfforddiant, disgwylir i awdurdodau eraill dreialu'r adnodd a chynnig adborth i ddatblygu a grymuso'r prosiect ymhellach. Cynhaliwyd lansiad llwyddiannus o'r adnodd hefyd ar stondin Gwynedd

brynhawn Mawrth, 8 Awst ar faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i ddyfynnu adroddiad Estyn o safbwynt ein darpariaeth i hwyrddyfodiaid: *"Mae'r canolfannau trochi yn arbennig o lwyddiannus o ran galluogi hwyrddyfodiaid i'r iaith i gaffael yn y Gymraeg. Mae'r staff yn y canolfannau hyn hefyd yn darparu hyfforddiant buddiol i staff o fewn ysgolion a lleoliadau prif lif ar sut i gefnogi'r disgyblion hyn."*

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Rwy'n hynod o falch o'r cydnabyddiaeth a roddwyd gan Estyn yn eu hadroddiad i ymrwymiad yr Adran Addysg a'r Cyngor hwn i'r Gymraeg, dywed: *"Mae hybu'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth amlwg i'r awdurdod a'r gwasanaeth addysg. Mae'r awdurdod yn buddsoddi'n helaeth er mwyn sicrhau mynediad i addysg a phrofiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i holl blant a phobl ifanc y sir."* Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am eu gwaith o gynnal Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd, ac rwy'n edrych ymlaen i gynnal trafodaethau gyda fy nghyd-aelodau Cabinet ar argymhellion yr adroddiad yma.

Hefyd, mae'r Adran wedi bod yn gweithio dros y misoedd diwethaf ar lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd i Wynedd. Bu drafft cychwynnol ohono gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Medi 2023, ac rwy'n edrych ymlaen i barhau gyda'r ymgysylltu a'r trafodaethau anffurfiol ar gynnwys y Strategaeth, cyn ei gyflwyno gerbron y Cabinet i ofyn caniatâd i ni ymgynghori'n gyhoeddus arno ddiwedd y flwyddyn.

Un o'r meysydd sydd wedi derbyn cryn sylw gennym yn herio perfformiad eleni yw presenoldeb dysgwyr yn ein hysgolion. Rydym yn ymwybodol ers y pandemig nad yw lefelau presenoldeb dysgwyr wedi dychwelyd i'r hyn ydoedd cyn y pandemig, ac mae'r sefyllfa yng Ngwynedd yn adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol. Mae presenoldeb ar draws y sir yn dangos tuedd gyffredinol o ostyngiad gyda salwch yn amlygu ei hun fel y prif reswm y tu ôl i hynny, ynghyd â'r ffaith fod lefelau absenoldebau parhaus yn parhau'n gymharol uchel. Yn ogystal, mae lefelau gwaharddiadau parhaol a chyfnodau penodol ar gynnydd, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ac yn benodol mewn 5 ysgol yn y sir. Mae rhaglen waith barhaus eisoes yn ei lle sydd yn adolygu'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth gyda'r nod o gynyddu presenoldeb a lleihau nifer y gwaharddiadau yn y sir. Bu i Estyn hefyd gydnabod nad yw cyfraddau presenoldeb Gwynedd mor gadarn ac yr oeddynt yn y gorffennol, gan nodi nad yw'r cyfraddau'n cymharu'n ffafriol â chyfraddau cenedlaethol ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae presenoldeb dysgwyr yn un o argymhellion arolygiad Estyn o wasanaethau Addysg yr Awdurdod y byddwn yn rhoi mwy fyth o ffocws iddo dros y misoedd nesaf.

I gloi, hoffwn nodi fy mod yn gyffrous iawn ynglŷn â lwyddiant y cais Her Ysgolion Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru sydd yn golygu y byddwn yn adeiladu ysgol newydd

fydd yn gampws cymunedol, amgylcheddol gyfeillgar a chynaliadwy gwerth £12m ym Montnewydd, ger Caernarfon. Ar y cyd gyda dysgwyr Ysgol Bontnewydd a oedd yn rhan o'r panel cyfweld rydym wedi penodi cwmni pensaernïol, sef TACP Architects o Wrecsam i ddylunio'r adeilad newydd. Er nad oes dim newid i'w weld ar y safle ar hyn o bryd, mae nifer helaeth o asesiadau wedi eu cynnal ar y safle dros gyfnod yr haf. Rwy'n edrych ymlaen i adrodd ar gynnydd pellach y prosiect hynod gyffrous hwn y tro nesaf.

### 3.3 Sefyllfa Arbedion

Mae cyfanswm Cynlluniau Arbedion 2023-24 ar gyfer yr adran yn £835,030 ac mae'r cyfan wedi eu gwireddu. Targed arbedion cyfredol yr Adran ar gyfer 2024/25 yw £111,880, ac mae'r cwbl ar drac i'w cyflawni'n amserol.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg.

### 4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.